

# Seminar Rhwydwaith Trefnwyr Digwyddiadau Sir Gaerfyrddin

31 Ionawr 2017 yng Ngwesty'r Llwyn Iorwg, Caerfyrddin

## Adroddiad Cryno

---

### Cynnwys:

Tudalen: Cynnwys:

2. Rhagarweiniad
2. Nodiadau'r Drafodaeth Grŵp:
2. Cyllido / Ariannu Digwyddiadau
5. Marchnata a Hyrwyddo
7. Cyflenwyr ac Adloniant
8. Naws am Le / Nodweddion Unigryw Lleol
9. Gwirfoddolwyr
11. Ymgysylltu Cymunedol
12. Nodiadau'r Ymarfer 'Post-it'
14. Sylwadau ac Argymhellion

### Atodiad:

1. Nodiadau Llawn y Drafodaeth Grŵp
  2. Sylwadau Llawn yr Ymarfer 'Post-it'
- 

Cynhyrchwyd ar gyfer Cyngor Sir Caerfyrddin gan:

Cymdeithas Twristiaeth Sir Gâr

Cyswllt : Nia Ball

Rhif ffôn: 01269 598140

E-bost: [nia@visitcarmarthenshire.co.uk](mailto:nia@visitcarmarthenshire.co.uk)

Gwefan: [carmarthenshiretourism.co.uk](http://carmarthenshiretourism.co.uk)

## Rhagarweiniad

Cynhaliwyd cyfarfod y Rhwydwaith Trefnwyr Digwyddiadau yng Ngwesty Brenhinol y Llwyn Iorwg yng Nghaerfyrddin ar fore'r 31<sup>ain</sup> o Ionawr.

Y bwriad y tu ôl i'r digwyddiad hwn oedd cael cyfle i ymgynghori â threfnwyr digwyddiadau'r Sir - o ddigwyddiadau cymunedol bach i ddigwyddiadau mwy o faint i ymwelwyr. Gwnaethpwyd hyn er mwyn canfod eu prif anghenion am gymorth, ac i helpu i gadarnhau gweithgareddau Prosiect Cylch Trefnwyr Digwyddiadau Sir Gaerfyrddin, a ariennir gan Raglen Datblygu Gwledig 2014-2020, dan arweiniad Cyngor Sir Caerfyrddin.

Contractiwyd Cymdeithas Twristiaeth Sir Gâr i gynllunio, paratoi a hwyluso sesiwn y bore. Cafwyd cyflwyniadau cychwynnol gan Huw Parsons a Sian Williams o Gyngor Sir Caerfyrddin, a oedd yn rhoi golwg gyffredinol ar nodau'r Prosiect. Yn dilyn hynny ymgynullodd y 60 o drefnwyr digwyddiadau a oedd yn bresennol mewn grwpiau trafod, a hwyluswyd gan aelodau'r tîm o Gymdeithas Twristiaeth Sir Gâr a Chyngor Sir Caerfyrddin.

Ar ôl y trafodaethau hynny - lle cafodd y prif bwyntiau eu nodi gan yr hwyluswyr - gofynnwyd pum cwestiwn i'r cynrychiolwyr ac roedd yn rhaid iddynt ysgrifennu'r hyn yr oeddent yn ei feddwl ar nodiadau 'post-it'. Roedd yr ymarfer hwn o gymorth i nodi'r materion a'r syniadau mwy blaenllaw hynny, ac roedd yn sicrhau bod cyfle gan bob trefnwyr digwyddiadau i gael ei farn wedi'i hystyried.

Rhodddwyd ystyriaeth i'r nodiadau o bob un o'r grwpiau trafod a'r ymarfer 'post-it' yng Nghrynodeb y Seminar - ac maent, yn eu tro, wedi cyfrannu at adran Argymhellion y Prosiect. Nid yw'r argymhellion a wnaed yn drwyadl - elfen ychwanegol i'r contract yw hon, y teimlwyd y byddai'n ddefnyddiol i grynhoi'r nodiadau cyffredinol a'r adroddiad.

---

## Nodiadau'r Drafodaeth Grŵp

Dyma grynodeb o'r pwyntiau a wnaed a'r trafodaethau a gafwyd yn y grwpiau. Mae'r adrannau cyfleoedd posibl yn cynnwys pwyntiau a wnaed gan drefnwyr digwyddiadau, yn ogystal â'r rheiny a argymhellwyd gan awdur yr adroddiad yn seiliedig ar y canfyddiadau a'r sylwadau a nodwyd yn flaenorol.

Caiff nodiadau grwpiau unigol, ar wahân eu cynnwys yn Atodiad 1. Dylid ystyried y rhain yn adnodd pwysig sy'n cynnwys llawer o sylwadau, awgrymiadau ac arsylwadau defnyddiol.

### **1. Cyllido / Ariannu Digwyddiadau**

Dywedwyd mai dyma oedd y prif ffynonellau ar gyfer ariannu digwyddiadau:

- Gwerthiant tocynnau / ffioedd mynediad
- Ffioedd cymryd rhan - e.e. pobl yn talu i fod yn rhan o ddigwyddiad chwaraeon, busnesau yn talu am stondin i werthu eu cynnyrch yn y digwyddiad)
- Grantiau - e.e. Cronfa Dreftadaeth y Loteri, Arian i Bawb, Cyngor Sir Caerfyrddin, Cynghorau Cymuned, Ardal Gwella Busnes
- Nawdd ariannol
- Nawdd mewn da (gwrthgynigion, cynorthwyo trwy ddarparu gwasanaethau a chynhyrchion yn hytrach na chymorth ariannol uniongyrchol).

**Roedd yr heriau a'r meysydd lle'r oedd angen cymorth o safbwynt ariannu digwyddiadau fel a ganlyn:**

- Adroddwyd ei bod yn gallu bod yn anodd gwybod â phwy y dylid cysylltu ar gyfer y gwahanol agweddau ar gynnal digwyddiad
- Anawsterau i ddod o hyd i ffynonellau grantiau addas
- Diffyg eglurder ynghylch pa ddigwyddiadau y mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn eu cynorthwyo trwy roi grantiau - y gair a ddefnyddiwyd i ddisgrifio hyn oedd 'afreolaidd' ('*sporadic*').
- Anawsterau o ran denu a dod o hyd i nawdd
- Ddim yn glir sut i brisio digwyddiad, sydd yn allweddol wrth geisio noddwyr masnachol - e.e. Elw ar Fuddsoddiad / gwariant / gwerth i'r economi lleol
- Caiff busnesau lleol eu llethu gan nifer uchel o geisiadau am nawdd a chymorth oddi wrth ddigwyddiadau lleol
- Teimlid nad oedd y rhan fwyaf o gynlluniau grant yn berthnasol neu'n addas i ddigwyddiadau, yn enwedig o ran amserlenni (amserau dirwyn hir) ac anhawster i ddod o hyd i'r grantiau hyn, yn enwedig ar ôl blwyddyn gyntaf y digwyddiad.
- Caiff llawer o ddigwyddiadau eu trefnu gan grwpiau o wirfoddolwyr ac felly nid gan gorff cyfansoddiadol - sydd wedyn yn rhwystr i wneud cais am grantiau.

**Cyfleoedd posibl am fynd i'r afael â'r materion ariannol hyn trwy'r Prosiect:**

- Creu swydd Cydgysylltydd Digwyddiadau ar gyfer y Sir - a fydd yn helpu i ddarparu sianel gyfathrebu glir, cymorth ac arweiniad (pwynt cyswllt cyntaf pwrpasol a fydd wedyn yn gallu cynorthwyo a chyfeirio i'r man cywir)
- Darparu cymorth ac arweiniad ar gyfer denu nawdd masnachol
- Dull cyd-gysylltiedig o 'becynnu' digwyddiadau gyda'i gilydd er mwyn derbyn nawdd (byddai'n helpu i gyfyngu ar y nifer fawr o geisiadau a cheisiadau tameidiog a gaiff eu cyfeirio at fusnesau lleol a noddwyr posibl).
- Creu a rhannu model 'Buddion Busnes' - i'w ddefnyddio gan drefnwyr digwyddiadau wrth ofyn i fusnesau lleol am gymorth e.e. ffeithiau ac ystadegau ynghylch: pwysigrwydd digwyddiadau i'r economi lleol, a syniadau am ffyrdd y gall busnesau lleol fod yn rhan o hyn ac elwa o ddigwyddiadau lleol - y gellir eu defnyddio wrth ofyn iddynt am gymorth, yn hytrach na gofyn am gyfraniad yn unig.
- Bod y Prosiect yn cynorthwyo ac yn hwyluso'r broses o godi ymwybyddiaeth ymhlith busnesau lleol a grwpiau cymunedol ynghylch pwysigrwydd digwyddiadau, a rhannu arferion da. Gallai hyn fod trwy ddigwyddiadau penodol mewn trefi sy'n cynnal digwyddiadau sydd â photensial i dyfu neu ddenu ymwelwyr - neu 'ymgyrch' ehangach ar sawl llwyfan.
- Gellid trefnu ystod o weithdai hyfforddi i fynd i'r afael â'r materion a'r anghenion a nodwyd, gan gynnwys:
  - Cynllunio Busnes
  - Cyfansoddiad – ‘Sut a Pham’
  - Cynllunio Ariannol / Cadw Cyfrifon ac ati
  - Rheoli Digwyddiadau / Prosiectau
  - Ysgrifennu ceisiadau effeithiol am grantiau
  - Ffyrdd arloesol o ddod o hyd i gyllid ar gyfer digwyddiadau
- Pethau i'w cynnwys ar ein gweborth Cylch Digwyddiadau newydd:
  - Creu llifsiart sy'n dangos pwy sy'n gwneud beth - egluro'r cymorth a'r gwasanaethau sydd ar gael
  - Golwg gyffredinol ar y camau allweddol er mwyn trefnu digwyddiad (Pecyn Trefniadau Ymarferol - yn cynnwys pethau fel amserau dirwyn, rheoliadau, pethau y mae angen trwyddedau ar eu cyfer, samplau 'sut i lenwi'r ffurflen' ac ati)

- Ffeithiau ac ystadegau am fanteision digwyddiadau i'r gymuned leol
- Rhestr / cofrestr o fusnesau lleol sydd â diddordeb mewn cyfleoedd noddi
- Manylion am gynlluniau grant addas - rhaid eu cadw'n gyfoes
- Cyngor ynghylch sefydlu corff cyfansoddiadol - pa fathau, beth mae'n ei olygu i chi fel unigolyn, â phwy y dylech gysylltu ac ati
- Model Buddion Busnes (fel yr uchod)
- Gwybodaeth am y cynllun Ardal Gwella Busnes

## **2. Marchnata a Hyrwyddo**

**Y prif weithgareddau marchnata a wneir gan y trefnwyr digwyddiadau a oedd yn bresennol oedd:**

- Cyfryngau cymdeithasol - yn enwedig Facebook
- Radio - rhestrau digwyddiadau ar dudalennau gwe a slotiau hyrwyddo digwyddiadau / eu darllen gan gyflwynwyr. Mae rhai'n cymryd hysbysebion am dâl
- Rhestrau digwyddiadau ar wefannau – e.e. <http://croeso.cymru>, [darganfodsirgar.com](http://darganfodsirgar.com), Digwyddiadau Sir Gaerfyrddin ar Facebook
- Cynhyrchu a dosbarthu posteri a thafleuni
- Rhestrau a hysbysebion mewn papurau lleol - mae'r enghreifftiau o deitlau penodol a grybwyllwyd yn cynnwys cylchgrawn Tennant 2 Tennant, Newyddion Sir Gâr, Papurau Bro (mae'r nifer sy'n eu darllen ledled Cymru yn fwy na'r Western Mail)
- Hyrwyddo i fusnesau twristiaeth lleol - hyrwyddo eu gweithgareddau eu hunain, argymell i westeion a chwsmeriaid
- Ysgrifennu a dosbarthu datganiadau i'r wasg / siarad â newyddiadurwyr
- Cyngor Sir Caerfyrddin yn targedu cyflogwyr mawr y sir i ddosbarthu gwybodaeth i'w staff - felly ar hysbysfyrddau mewn ystafelloedd staff, mewn slipiau cyflog ac ati

**Y prif heriau a'r anghenion am gymorth a gyflwynwyd o safbwynt marchnata oedd:**

- Angen gwell cymorth marchnata

- Helpu i wella sgiliau a gwybodaeth trefnwyr digwyddiadau (gwirfoddolwyr yw'r rhan fwyaf ohonynt, nid trefnwyr digwyddiadau proffesiynol)
- Cyfathrebu gwan rhwng trefnwyr digwyddiadau - er enghraifft, yn arwain at ddyblygu ymdrechion, digwyddiadau sy'n targedu'r un gynulleidfa yn cael eu cynnal ar yr un diwrnod.
- Anawsterau wrth farchnata digwyddiadau gyda chyllidebau / adnoddau cyfyngedig
- Angen cryfhau cysylltiadau gyda busnesau twristiaeth lleol
- Rheolau llym / aneglur ynglŷn â phosteri a deunyddiau hyrwyddo ar ochr y ffordd

**Cyfleoedd posibl am fynd i'r afael â'r materion marchnata hyn trwy'r Prosiect:**

- Hwyluso cyfle i drefnwyr digwyddiadau gwrdd ag adrannau perthnasol Cyngor Sir Caerfyrddin / sefydliadau eraill (e.e. cael Swyddog o'r Tîm Priffyrdd i drafod y rheolau a'r rheoliadau ynglŷn â deunyddiau hyrwyddo ac arwyddion ar ochr y ffordd, trwyddedu, yr heddlu, Ambiwlans Sant Ioan, marchnata)
- Cydlynu cynlluniau argraffu fel grŵp ar gyfer aelodau'r Cylch Digwyddiadau
- Cyngor Sir Caerfyrddin i reoli menter baneri ochr y ffordd (fel y gwnaethpwyd yn awdurdod Castell-nedd Port Talbot - gyda lleoliadau penodedig a rota ar gyfer gwahanol ddigwyddiadau)
- Creu system i leihau achosion o ddigwyddiadau'n cael eu cynnal ar yr un diwrnod
- System er mwyn i drefnwyr digwyddiadau allu cyfathrebu - efallai grŵp Facebook caeedig?
- Cydlynu gweithgareddau hyrwyddo ar y cyd - e.e. marchnata ymbarél: hyrwyddo digwyddiadau tebyg o dan yr un ymbarél - rhannu costau, proffil uwch, pawb yn elwa
- Digwyddiadau sy'n berthnasol i ymwelwyr: cymryd mwy o ran mewn rhwydweithiau twristiaeth megis Cymdeithas Twristiaeth Sir Gâr, i roi llwyfan i rwydweithio â busnesau twristiaeth ehangach
- Cymorth i dargedu'r cyflogwyr mawr hynny yn y sir i ddsbarthu gwybodaeth am ddigwyddiadau (e.e. cyfleoedd i gael eu cynnwys ar 'fewnrwydi' cwmnïau, hysbysfyrddau mewn ystafelloedd staff, llythyrau newyddion i staff, cynlluniau cymell staff, slipiau cyflog ac ati)
- Hyfforddiant posibl i gael ei gynnig:

- Ysgrifennu Datganiadau i'r Wasg
- Syniadau marchnata cost isel
- Marchnata drwy'r cyfryngau cymdeithasol
- Offer cynllunio ar-lein / Creu eu posteri a'u ffeithluniau eu hunain (offer rhad ac am ddim megis 'Canva')
- Marchnata trwy e-bost
- Defnyddio Eventbrite
- Gwybodaeth a allai gael ei chynnwys ar y gwweborth Cylch Digwyddiadau newydd:
  - Rhestr gyswllt a dyddiadau cau ar gyfer y cyfryngau (gan gynnwys cyfryngau lleol, llythyrau newyddion oddi wrth Croeso Cymru ac ati)
  - Materion cyfreithiol / rheoliadau ar gyfer deunyddiau hyrwyddo ar ochr y ffordd, arddangos taflenni ac ati
  - Rhestr gyswllt ar gyfer Byrddau Cymunedol / byrddau arddangos mewn trefi - rhestr gyswllt gyda'r enw a'r rhif cyswllt er mwyn gallu defnyddio byrddau cymunedol a manau arddangos pwysig eraill, a manylion ynglŷn ag a oes tâl am hyn ai peidio.
  - Rhestr o 'Ddiwrnodau Cenedlaethol' gyda syniadau am ffyrdd o gysylltu â'r rhain at ddibenion hyrwyddo
  - Rhestr o ffotograffwyr a chwmnïau ffilm (a argymhellwyd gan aelodau eraill y Cylch Digwyddiadau).

### 3. Cyflenwyr ac Adloniant

**Dyma'r prif gyflenwyr a gwasanaethau cyffredin a ddefnyddir gan y trefnwyr digwyddiadau:**

- |                       |   |
|-----------------------|---|
| ● Cyfieithu           | ● Yswiriant   |
| ● Dylunio ac argraffu | ● Cyfarpar PA   |
| ● Pabell fawr         | ● Gwasanaethau trydanol                                     |
| ● Celfi               | ● Llwyfannau  |
| ● Rhwystrau           | ● Adloniant   |
| ● Generaduron         | ● Diogeled  |
| ● Toiledau cludadwy   | ● Diddanwyr (e.e. cerddoriaeth, dawns-wyr, peintwyr wyneb-) |
| ● Arlwyo              |   |

siaradwyr gwadd, diddanwyr plant,  
storiwyr)

**Y prif heriau a'r anghenion am gymorth a gyflwynwyd o safbwynt cyflenwyr oedd:**

- Roedd yn brofiad cyffredin i fod yn 'dechrau o'r dechrau' wrth chwilio am gyflenwyr ac adloniant ar gyfer pob digwyddiad
- Diffyg gwybodaeth am ddiddanwyr - a oes modd ymddiried yn eu tystlythyrau? Angen bod â hyder yn y sawl a gaiff ei archebu, rhaid bod ganddo brofiad llwyddiannus
- Mae costau rhai diddanwyr yn uchel, yn enwedig ar gyfer digwyddiadau cymunedol bach
- Ceir costau uchel ar gyfer y rhan fwyaf o ddigwyddiadau o safbwynt isadeiledd a chyflenwyr
- Diffyg asedau ym meddiant y gymuned y gall trefnwyr digwyddiadau eu defnyddio (e.e. stondinau, pebyll mawr, llwyfannau)

**Cyfleoedd posibl am fynd i'r afael â'r materion hyn yn ymwneud â chyflenwyr trwy'r Prosiect:**

- Archwilio'r posibilrwydd o brynu cyflenwadau allweddol fel grŵp - e.e. stondinau marchnad, llwyfannau ac ati. (Gall aelodau Sanclêr a Rhydaman adrodd nôl ynglŷn â sut y mae hyn yn gweithio). Gallai hyn hefyd weithio gyda diddanwyr (archebu'r un artist ar gyfer nifer penodol o ddigwyddiadau, gan gytuno ar gost is ar sail nifer yr archebion)
- Trefnu digwyddiad i arddangos cyflenwyr ar batrwm Ffair Briodasau - e.e. systemau sain, llwyfannau, dawnswyr, celfi llwyfan...
- Nodi busnesau lleol a allai fod yn rhan o brofiad y digwyddiad - gwrthgynnig, dim tâl am wasanaeth, ond cyfle iddynt hyrwyddo eu busnes (e.e. arddangosiadau blasu bwyd neu goginio gan fwytai lleol, gweithgareddau 'rhoi cynnig arni' symudol gan ganolfannau gweithgareddau awyr agored, adeiladu cuddfan gyda'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol)
- Gwybodaeth a allai gael ei chynnwys ar y gweborth:



- Rhestr o gyflenwyr a diddanwyr a argymhellir - sydd yn tynnu sylw at y digwyddiadau y maent wedi bod yn ymwneud â hwy - wedi'u hargymell a'u graddio gan aelodau'r cylch digwyddiadau
- Trefnu cyfraddau ffafriol gyda chyflenwyr ar gyfer aelodau'r Cylch Digwyddiadau
- Manylion am asedau sydd ym meddiant y gymuned ar gael i'r trefnwyr digwyddiadau eu defnyddio (p'un ai am ddim neu am dâl) a manylion cyswllt
- Manylion am weithgareddau ac atyniadau lleol a allai fod yn rhan o rai digwyddiadau, gydag elfennau rhyngweithiol (ac yn rhad ac am ddim, ar sail y cyfle i hyrwyddo eu busnes a ddaw yn sgil bod yn rhan o'r digwyddiadau)
- Astudiaethau Achos o Ddigwyddiadau: Cyfres o astudiaethau achos ar gyfer digwyddiad cymunedol bach, digwyddiad canolig mewn tref a digwyddiad mawr, gyda'r costau wedi'u cynnwys

#### **4. Naws am Le / Nodweddion Unigryw Lleol**

Mae'n amlwg fod pob grŵp wedi treulio llai o amser yn trafod y mater hwn - a hyn, mae'n ymddengys, oherwydd nifer y trefnwyr digwyddiadau cymunedol 'go iawn' oedd yn bresennol, a oedd yn trefnu digwyddiadau ar gyfer cynulleidfa leol benodol (e.e. Cymdeithas Tenantiaid) ac sydd, yn wahanol i'r rheiny sy'n trefnu digwyddiadau ar gyfer ymwelwyr, yn llai cyfarwydd â naws am le ac nid yw'n rhan mor amlwg o'u digwyddiadau.

#### **Anghenion trefnwyr digwyddiadau o safbwynt Naws am Le / Nodweddion Unigryw Lleol:**

- Rhannwyd Gŵyl y Twrch Trwyth fel enghraifft dda - ond yr her yn awr yw cynnwys y thema nodweddion unigryw lleol yn rhaglen holl ddigwyddiadau'r dref.
- Mae'n ymddangos bod yna ddiffyg dealltwriaeth gan drefnwyr digwyddiadau ynghylch y cysyniad o naws am le / nodweddion unigryw lleol a phwysigrwydd cynnwys hyn mewn digwyddiad
- Mae angen i drefnwyr digwyddiadau ddeall mwy am gynigion arbennig eu hardal leol (e.e. mythau a chwedlau, bwyd, pobl) cyn y gallent gyfleu hyn yn well yn eu digwyddiadau.
- Mae angen i fusnesau lleol fod yn rhan o hyn - does dim byd gwaeth na hyrwyddo cynnyrch lleol ac wedyn gweld fod y gwneuthurwr / siop sy'n gwerthu'r cynnyrch ar gau pan fydd ymwelwyr o gwmpas.

### **Cyfleoedd posibl am fynd i'r afael â materion yn ymwneud â naws am le trwy'r Prosiect:**

- Hyfforddiant a allai gael ei gynnig:
  - Nodweddion Unigryw Lleol (cyflwyniad i naws am le a nodweddion unigryw lleol Sir Gaerfyrddin? Mythau, chwedlau, bwyd, diwylliant ac ati)
  - Sut i gynnwys nodweddion unigryw lleol mewn digwyddiad
- Gwybodaeth i'w chynnwys ar y gweborth Cylch Digwyddiadau newydd:
  - Dolenni cyswllt i becynnau cymorth Nodweddion Unigryw Lleol Sir Gaerfyrddin
  - Dolenni cyswllt i becynnau cymorth Naws am Le Croeso Cymru, pecynnau cymorth y Flwyddyn Chwedlau...
  - Dolenni cyswllt i Darganfodsirgar.com – i helpu i gryfhau gwybodaeth am yr hyn a gynigir i ymwelwyr yn Sir Gaerfyrddin

## **5. Gwirfoddolwyr**

- Mae pob digwyddiad yn dibynnu'n drwm ar gymorth gan wirfoddolwyr - gyda llawer o ddigwyddiadau'n cael eu trefnu a'u harwain yn gyfan gwbl gan wirfoddolwyr

### **Roedd yr heriau a'r meysydd lle'r oedd angen cymorth o safbwynt gwirfoddolwyr fel a ganlyn:**

- Anhawster i ddenu a chael gwirfoddolwyr - mae recriwtio gwirfoddolwyr yn dasg barhaus a heriol, a hynny ar gyfer pob rôl a lefel (o lefelau gweithredwyr i gael help ar y diwrnod)
- Y Ganolfan Waith - bellach ceir rheolau sy'n rhwystro ceiswyr gwaith rhag gwirfoddoli am fwy na chyfnod penodol o amser - sydd yn peri anawsterau i'r rheiny sy'n ceisio recriwtio gwirfoddolwyr o gronfa bosibl o bobl ddi-waith/ceiswyr gwaith
- Diffyg cymorth wrth helpu i ddod o hyd i wirfoddolwyr
- Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Gâr (CAVS) - mae angen eglurder ynghylch pa gymorth a gynigir ganddynt er mwyn dod o hyd i wirfoddolwyr
- Anawsterau pan na fydd gwirfoddolwyr yn ymrwymo neu'n cyflawni yn ôl yr angen. Gall problemau'n godi yn y pwyllgor trefnu yn arbennig, gan fod pawb yn gwirfoddoli

eu hamser am ddim, felly gall fod yn anodd dal rhywun i gyfrif am beidio â chwblhau ei dasgau

- Sicrhau proffesiynoldeb - mae cymorth gan wirfoddolwyr yn hanfodol ac yn rhywbeth a gaiff ei annog, ond weithiau gall cael gormod o bobl yn rhan o'r digwyddiad ei wneud yn anodd i'w reoli
- Gall fod yn anodd dod o hyd i ddigon o wirfoddolwyr fel nad oes gormod o waith a chyfrifoldeb yn cwmpo ar un person / yr un criw bach o bobl bob tro

**Cyfleoedd posibl am fynd i'r afael â'r materion yn ymwneud â Gwirfoddolwyr trwy'r Prosiect:**

- Ymgymryd â gwaith hyrwyddo ar y cyd fel trefnwyr digwyddiadau neu ymgyrch ganolog i godi ymwybyddiaeth o gyfleoedd gwirfoddoli yn nigwyddiadau'r Sir
- Digwyddiad (tebyg i Ffair Swyddi) i hyrwyddo cyfleoedd a dod o hyd i wirfoddolwyr
- Archwilio cynlluniau gwobrau / bancio amser ar gyfer aelodau'r Cylch Digwyddiadau
- Creu Cerdyn Gwirfoddolwr - mae'r gwirfoddolwyr yn dangos y cerdyn mewn amrywiol stondinau yn y digwyddiad(au) ac yn cael gostyngiad (e.e. stondinau bwyd, stondinau crefft, gweithgareddau)
- Cydgysylltu aelodau'r Cylch Digwyddiadau er mwyn iddynt helpu yn nigwyddiadau ei gilydd (rhoi peth amser i helpu rhywun yn gyfnewid am ei help) - gwirfoddoli a chynorthwyo ar draws digwyddiadau
- Annog grwpiau lleol (chwaraeon, diddordebau arbennig ac ati) i helpu mewn digwyddiadau yn gyfnewid am ofod hyrwyddo/hysbysebu
- Gofyn i golegau a phrifysgolion lleol - yn enwedig y rheiny sydd â phynciau/cyrsiau yn gysylltiedig â threfnu digwyddiadau, rheoli busnes neu farchnata - i helpu yn yr amrywiol agweddau ar drefnu'r digwyddiad. Archwilio cyfleoedd am brofiad gwaith
- Gwybodaeth bosibl i'w chynnwys ar y gweborth:
  - Canllawiau/cysylltiadau a all fod o gymorth i ddod o hyd i wirfoddolwyr
  - Cyfeirlyfr / rhwydwaith o sefydliadau gwirfoddolwyr a'u harbenigeddau ('banc gwirfoddolwyr')
  - Rhestr o aelodau'r Cylch Digwyddiadau sydd yn fodlon gwirfoddoli yn nigwyddiadau ei gilydd yn gyfnewid am gymorth gan wirfoddolwyr yn eu digwyddiad eu hunain

- Manylion cyswllt ar gyfer colegau a phrifysgolion lleol
- Hyfforddiant a allai gael ei gynnig:
  - Rheoli gwirfoddolwyr / staff

## **6. Ymgysylltu Cymunedol**

**Roedd yr heriau a'r meysydd lle'r oedd angen cymorth o safbwynt Ymgysylltu Cymunedol mewn digwyddiadau lleol fel a ganlyn:**

- At ei gilydd ceir lefel bodlonrwydd isel ymhlith trefnwyr digwyddiadau ynglŷn â'r ffordd y mae grwpiau cymunedol ac aelodau yn ymwneud â'u digwyddiadau. Mae'n ymddangos fod Llandeilo yn well nag eraill, ond mae hyn yn parhau i fod yn her ac yn rhywbeth sydd angen ei gryfhau
- Awgrymwyd ei bod yn anoddach cael pobl leol a busnesau i gefnogi digwyddiadau yn y trefi mwy o faint (e.e. Llanelli neu Gaerfyrddin)
- Adroddwyd bod y gymuned yn Rhydaman yn dechrau dod yn rhan o bethau, ond mae angen cael cysondeb ar draws y digwyddiadau a byddai cael mwy o raglen drwy gydol y flwyddyn yn gwneud hyn
- Mae angen gwella'r cyfathrebu rhwng trefnwyr y digwyddiadau ac aelodau'r gymuned ehangach
- Yn gyffredinol ceir diffyg gwybodaeth ynghylch pobl yn y gymuned ehangach a allai fod yn rhan o bethau a sut y gellid eu cyrraedd - e.e. pwy yw'r unigolion allweddol, grwpiau lleol, cymdeithasau, ysgolion
- Nid yw pwysigrwydd a manteision digwyddiadau i'r economi/y gymuned yn cael eu cydnabod

**Cyfleoedd am fynd i'r afael â materion yn ymwneud ag Ymgysylltu Cymunedol:**

- Hwyluso digwyddiadau cymunedol - cyfle i ddod i wybod mwy am eu digwyddiadau lleol, eu pwysigrwydd i economi'r ardal, a syniadau clir am sut y gallant fod yn rhan ohonynt, eu cefnogi ac elwa ohonynt

- Dod o hyd i enghreifftiau o arferion da - i'w rhannu â'r Cylch Digwyddiadau mewn digwyddiadau yn y dyfodol a / neu ar y gweborth
- Pethau i'w cynnwys ar y gweborth Cylch Digwyddiadau newydd:
  - Astudiaethau Achos / Arferion Da
  - Rhestrau o syniadau am sut y gall gwahanol aelodau o'r gymuned/gwahanol ardaloedd ymwneud â digwyddiadau
  - Dyfyniadau / tystlythyrau gan grwpiau neu fusnesau lleol sy'n tynnu sylw at y manteision a gynigir iddynt trwy fod yn rhan o ddigwyddiad neu ei gefnogi

---

## **Nodiadau'r Ymarfer 'Post-it'**

Dyma'r prif sylwadau a wnaed gan y trefnwyr digwyddiadau ar eu nodiadau 'post-it'. Ar gyfer pob cwestiwn a ofynnwyd, caiff yr atebion eu rhestru yn nhrefn eu pwysigrwydd/blaenoriaeth yn seiliedig ar sawl gwaith y cafodd y pwynt ei wneud. Mae'r ffigur a nodir yn erbyn pob pwynt yn y cromfachau yn dangos nifer y bobl a restrodd hyn.

Cafodd llawer mwy o bwyntiau a sylwadau eu gwneud, a gellir gweld pob un o'r rhain yn Atodiad 2. Fel gyda Nodiadau'r Grŵp Trafod, argymhellir bod yna lawer o sylwadau ac awgrymiadau defnyddiol wedi'u rhestru yn eu plith. Isod rhestrir rhai o'r sylwadau amlycaf - fodd bynnag, ceir sylwadau eraill a nodwyd gan unigolion yn unig ond sy'n cynnig cyfeiriad defnyddiol ar gyfer y Prosiect.

### **1.Y prif heriau a wynebir wrth gynnal a rheoli digwyddiadau**

- |  |  |
|--|--|
| 1. Marchnata a Hyrwyddo (15)               | 7. Rhagfynegi ffigurau presenoldeb / gwerthiant tocynnau (4)   |
| 2. Dod o hyd i wirfoddolwyr / Staffio (13) | 8. Dod o hyd i Noddwyr / Hyrwyddo i Noddwyr (4)  |
| 3. Cyllido / Ariannu Digwyddiadau (9)      | 9. Diffyg amser (3) * <i>Cysylltiedig â phwynt 2 – h.y. anawsterau i ddod o hyd i wirfoddolwyr a/neu staff</i> |
| 4. Ymgysylltu Cymunedol (5)                | 10. Digwyddiadau yn cystadlu â'i gilydd (3)  |
| 5. Cydymffurfio a Materion Cyfreithiol (5) |  |
| 6. Y Tywydd (5)                            |  |

## 2. Y Prif Gyfleoedd / Syniadau a Drafodwyd

1. Rhannu gwybodaeth / Creu Rhwydwaith (15)
2. Gweborth Trefnwyr Digwyddiadau / siop un stop (9) \* *Cysylltiedig â phwynt 7 – h.y. pwynt cyswllt canolog / Cydgysylltydd Digwyddiadau*
3. Cymorth marchnata / marchnata ar y cyd (6)
4. Rhestru cyflenwyr / cronfa ddata (6)
5. Dysgu arferion da o ddigwyddiadau eraill (5)
6. Rhannu adnoddau rhwng digwyddiadau (4)
7. Pwynt cyswllt canolog / Cydgysylltydd Digwyddiadau'r Sir (4)
8. Gweithgareddau Hyrwyddo a Recriwtio Gwirfoddolwyr (e.e. digwyddiad ar batrwm Ffair Swyddi, 'traws-wirfoddoli' ymhlith trefnwyr digwyddiadau) (4)
9. Rhestr ganolog o noddwyr posibl / busnesau sydd â diddordeb mewn gweithio mewn partneriaeth â digwyddiadau (4)

## 3. Y Prif Anghenion am Hyfforddiant

1. Y Cyfryngau Cymdeithasol (12)
2. Marchnata a Hyrwyddo (11)
3. Cydymffurfio a Materion Cyfreithiol (9)
4. Ymwybyddiaeth o gyllid grant / Ysgrifennu ceisiadau am grantiau (3)
5. Rheoli Digwyddiadau (3)
6. Rheolaeth Ariannol (2)

## 4. Y prif ddigwyddiadau sy'n tynnu sylw at arferion da

1. Gŵyl y Gelli (4)
2. Green Events / Digwyddiadau Llanwrtyd (2)
3. Gŵyl Fwyd Arberth (2)
4. Gŵyl Fwyd Aberaeron / Wythnos Bysgod (2)
5. Gŵyl Green Man (2)
6. Carnifalau mewn gwahanol ardaloedd (2)
7. Gŵyl Big Cwtch (2)
8. Sioe Frenhinol Amaethyddol Cymru (2)
9. Sioe Beiciau Modur Gorllewin Cymru (2)

## 5. Pethau eraill yr awgrymwyd y gallai'r Prosiect roi sylw iddynt

### 1. Cydgysylltydd Canolog / pwynt cyswllt sengl (3)

Cafwyd llawer o sylwadau eraill; fodd bynnag, roedd y rhain i gyd yn rhai unigol, gwahanol. Gellir gweld yr holl sylwadau unigol eraill yn Atodiad 2.

## Sylwadau ac Argymhellion

Mae'r nodiadau o bob un o'r grwpiau trafod a'r ymarfer 'post-it' wedi cael eu hystyried yng Nghrynodeb y Seminar - ac yn eu tro maent wedi cyfrannu at yr adran 'Sylwadau ac Argymhellion' hon. Nid yw'r argymhellion a wnaed yn drwyadl - elfen ychwanegol i'r contract yw hon, a ddarparwyd yn ychwanegol i ofynion y contract, ac y teimlwyd y byddai'n ddefnyddiol i grynhoi'r nodiadau cyffredinol a'r adroddiad - sydd yn darparu llawer o syniadau ac argymhellion eraill.

### **Rôl Gydgysylltu Ganolog**

Gwnaed llawer o gyfeiriadau a cheisiadau am bwynt cyswllt canolog / Cydgysylltydd Digwyddiadau'r Sir. Mae hyn yn bodoli i ryw raddau trwy'r Cydgysylltydd Prosiect yn ystod tymor y Prosiect - ond a oes yna gyfleoedd am rôl o'r fath mewn sefydliadau perthnasol yn y dyfodol / ar ôl cyfnod y Prosiect? Os nad yw hyn yn gynaliadwy, mae'n hanfodol sicrhau bod yr holl wybodaeth berthnasol sydd i'w chynnwys ar y gweborth newydd yn gynhwysfawr, yn cael ei chadw'n gyfoes ac yn cael ei chynnal, er mwyn gweithredu fel 'siop un stop'.

### **Gwahanol Ddulliau ar gyfer Gwahanol Fathau o Ddigwyddiadau**

Roedd yna ystod eang iawn o drefnwyr digwyddiadau yn bresennol yn y digwyddiad - o Gymdeithasau Tenantiaid i drefnwyr digwyddiadau chwaraeon ar raddfa fawr sy'n tyfu. Tra bod yna lawer o bethau sy'n gyffredin, mae'n amlwg fod gan drefnwyr gwahanol fathau o ddigwyddiadau wahanol anghenion am gymorth a datblygu. Roedd trefnwyr digwyddiadau cymunedol yn awyddus i ddysgu oddi wrth garnifalau mewn ardaloedd eraill; roedd

trefnwyr digwyddiadau mwy o faint ar gyfer ymwelwyr yn awyddus i ddysgu oddi wrth ddigwyddiadau megis Gŵyl y Gelli.

Ar sail hyn, efallai y byddai'n werth ystyried 'dull trac deuol neu driphlyg'. Gellir grwpio digwyddiadau'r Sir fel a ganlyn:

- Digwyddiadau Cymunedol:
  - Digwyddiadau cymunedol bach sy'n canolbwyntio ar gynulleidfa benodol fach (e.e. Cymdeithasau Tenantiaid, Bwrdd Iechyd Lleol)
  - Digwyddiadau ehangach ar gyfer y gymuned (carnifalau pentref)
- Digwyddiadau i ymwelwyr (y rheiny sydd â photensial i ddenu ymwelwyr / cael yr effaith economaidd uchaf)

### **Gweborth Newydd**

Mae'r trafodaethau wedi arwain at lawer o syniadau gwych o ran adnoddau i'w cynnwys ar y gweborth Cylch Digwyddiadau newydd. Fel y nodwyd yn flaenorol, dylai hyn fod yn 'siop un stop' ar gyfer trefnwyr digwyddiadau - o wybodaeth i gefnogi ymholiadau 'Ble i ddechrau arni' i wybodaeth ddefnyddiol ar gyfer trefnwyr digwyddiadau profiadol (e.e. cyfeirlyfrau cyflenwyr). Mae'n hanfodol bod hyn yn cael ei gadw'n gyfoes, ac awgrymir pan fydd unrhyw wybodaeth newydd yn cael ei hychwanegu - er enghraifft, manylion am gynllun grantiau newydd sy'n addas ar gyfer digwyddiadau - bod neges e-bost hefyd yn cael ei hanfon at aelodau'r Cylch i'w hysbysu am y diweddariad newydd i'r wefan. Mae hyn yn eu hatgoffa o fodolaeth y gweborth ac yn tynnu sylw ato fel ffynhonnell reolaidd o wybodaeth a chymorth, sy'n helpu i sicrhau ei fod yn cael ei ddefnyddio gan drefnwyr digwyddiadau.

### **Digwyddiad Cyflenwyr a Chymorth i Drefnwyr Digwyddiadau**

Awgrymwyd y dylid trefnu digwyddiad ar batrwm 'ffair briodasau' ar gyfer trefnwyr digwyddiadau - gyda chyfle i gwrdd ag adrannau perthnasol Cyngor Sir Caerfyrddin (trwyddedu, cynllunio), sefydliadau eraill (e.e. Priffyrdd, Ambiwylans Sant Ioan), a chyflenwyr digwyddiadau megis hurio pebyll mawr ac adloniant. 'Siop un stop' i gael yr holl gymorth, cyngor, cynnyrch a gwasanaethau sydd eu hangen er mwyn trefnwyr digwyddiadau.

Byddai hyn yn fuddiol iawn - a phe na bai cyllideb y Prosiect penodol hwn yn caniatáu hyn, yna gellid archwilio ffynonellau cyllid eraill, gan gynnwys cyllid Arweinydd y Rhaglen Datblygu Gwledig, gydag arian ar gael ar gyfer digwyddiadau adeiladu rhwydwaith o'r fath.



## **Cyfathrebu Rhwng Trefnwyr Digwyddiadau**

Roedd yr angen am well cyfathrebu yn cael sylw amlwg yn ystod y sesiwn - cyfathrebu gan / gyda'r rheiny sy'n cefnogi digwyddiadau, ond hyd yn oed yn fwy na hynny rhwng trefnwyr digwyddiadau.

Byddai llawer o'r materion a'r heriau allweddol yn cael eu datrys trwy hwyluso'r cyfathrebu rhyngddynt (e.e. gwybod am gyflenwyr cynnyrch a gwasanaethau o ansawdd da, materion sy'n codi o ganlyniad i ddigwyddiadau'n 'cystadlu' yn erbyn ei gilydd neu ddigwyddiadau'n targedu'r un gynulleidfa yn cael eu cynnal ar yr un diwrnod). Gellid gwneud hyn trwy:

- Greu llwyfan fforwm digidol - awgrymwyd mai grŵp Facebook caeedig fyddai'r un symlaf a hawsaf i'w ddatblygu a'i gynnal, ac yn bwysicach na dim, i'w gynnal wedi i'r prosiect ddod i ben heb unrhyw gostau cysylltiedig
- Hwyluso cyfarfodydd rheolaidd (bob chwarter?) i drefnwyr digwyddiadau Fel y gwnaethpwyd gan Gymdeithas Twristiaeth Sir Gâr ar gyfer sectorau eraill, mae'r sesiynau hyn yn weithgareddau isel eu cost (lluniaeth ac o bosibl hurio ystafelloedd) - ond byddent yn darparu cyfle gwerthfawr iddynt rannu materion a heriau, ac i nodi ffyrdd o weithio mewn partneriaeth (megis gweithgareddau marchnata ar y cyd). \* Gellid rhannu'r rhain ymhellach yn ddau neu dri math o drefnwyr digwyddiadau fel yr awgrymwyd eisoes, er mwyn cael y budd mwyaf ohonynt.

## **Marchnata a Hyrwyddo**

Dyma oedd yr her fwyaf yn ôl y rheiny oedd yn bresennol yn y cyfarfod. Codwyd llawer o faterion ac awgrymwyd cyfleoedd. Gellir mynd i'r afael â rhai o'r heriau hyn trwy weithdai hyfforddi, ac yn achosion rhai trwy ychwanegu adnoddau i'r gweborth - ond byddai heriau eraill, megis y cynllun argraffu canolog neu fentrau marchnata ar y cyd/dan ymbarél yn cael eu gyrru yn eu blaen trwy gyfarfodydd sector y Trefnwyr Digwyddiadau fel yr awgrymwyd uchod.

## **Darparu Hyfforddiant**

Nodwyd ac awgrymwyd llawer o anghenion am hyfforddiant, gyda'r 6 uchaf o'r ymarfer 'Nodiadau Post-it' yn tynnu sylw at Gyfryngau Cymdeithasol, Marchnata a Hyrwyddo, Cydymffurfio a Deddfwriaeth, Ymwybyddiaeth o Gyllid/Ysgrifennu Ceisiadau am Grantiau, Rheoli Digwyddiadau a Rheolaeth Ariannol.

Deallir ei bod yn bosibl nad oes gan y Prosiect gyllideb i drefnu llawer o gyrsgiau hyfforddi ar gyfer y trefnwyr digwyddiadau, felly, mae angen i Gyngor Sir Caerfyrddin archwilio â phwy y gallant weithio mewn partneriaeth â hwy er mwyn cyflwyno'r rhain. Neu, i nodi pwy sydd eisoes yn cyflwyno hyfforddiant ar y pynciau hyn a rhoi gwybod amdanynt i'r rheiny sydd mewn sianeli cyfathrebu ar gyfer aelodau'r Cylch Digwyddiadau. Mae'r rheiny megis Busnes Cymru, Rhaglen Cyflymu Cymru i Fusnesau, Cymdeithas Twristiaeth Sir Gâr a Choleg Sir Gâr yn darparu digwyddiadau hyfforddi busnesau rheolaidd - neu gymorth a chynghor cyffredinol gan dimau cymorth Busnes a Chymunedol Cyngor Sir Caerfyrddin efallai?

Y maes y nodwyd bod angen y mwyaf o hyfforddiant ar ei gyfer oedd Cyfryngau Cymdeithasol - ac felly, mae angen cyfeirio pobl at y Rhaglen Cyflymu Cymru i Fusnesau, neu archwilio p'un a oes modd iddynt ddarparu cyrsiau penodol wedi'u teilwra ar eu cyfer i Drefnwyr Digwyddiadau. Yn ogystal, mae Cymdeithas Twristiaeth Sir Gâr yn cynnal Prosiect, sydd yn cynnig hyfforddiant cymorthdaledig i fusnesau'n ymwneud â thwristiaeth, ac sydd yn cynnwys amrywiaeth o weithdai a sesiynau un-i-in yn gysylltiedig â'r pynciau Cynllunio Busnes, Marchnata a Gwasanaeth Cwsmer. Ceir cyfleoedd am i rai gweithdai gael eu darparu'n unig i aelodau'r Cylch Digwyddiadau.

### **Dod o hyd i Wirfoddolwyr**

Ymddengys mai dyma oedd y maes pwnc a drafodwyd fwyaf ym mhob un o'r grwpiau, gyda'r rhan fwyaf o'r rheiny oedd yn bresennol yn wynebu heriau o ganlyniad i ddiffyg gwirfoddolwyr wrth gynnal eu digwyddiadau - neu heriau o safbwynt amser ac ymroddiad o ganlyniad i fod y digwyddiad yn cael ei redeg gan wirfoddolwyr yn unig.

Un syniad a gynigiwyd ac a drafodwyd gan rai o'r grwpiau oedd trefnu 'Ffair Recriwtio Gwirfoddolwyr' - ar batrwm Ffair Swyddi; byddai hyn yn hyrwyddo cyfleoedd i wirfoddoli gyda threfnwyr digwyddiadau'r Sir. Gallai hyn fod ar gyfer Digwyddiadau yn unig, neu gellid ei ehangu ar gyfer y diwydiant twristiaeth a hamdden yn gyffredinol.

Gellid hefyd mynd i'r afael â'r diffyg gwirfoddolwyr trwy waith posibl i gryfhau cysylltiad y gymuned â digwyddiadau - gweler isod.

### **Cryfhau Ymgysylltu Cymunedol**

Mae'n amlwg bod rhaid cefnogi twf a gwelliant ymgysylltu cymunedol mewn digwyddiadau lleol, p'un ai trwy annog busnesau lleol i groesawu'r digwyddiadau, annog grwpiau cymunedol i fod yn rhan o'r digwyddiad neu annog unigolion i wirfoddoli yn eu sefydliad.

Mae trefnu digwyddiadau Ymgysylltu Cymunedol i godi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd digwyddiadau i'r ardal leol yn weithgaredd a gynlluniwyd fel rhan o'r Prosiect hwn - fodd bynnag, deallir nad yw'r tair tref ffocws ar gyfer y rhain wedi'u penderfynu eto.

Nid yw'r seminar hon o anghenraid wedi helpu i nodi'r rhain - er y cafwyd sylwadau fod gan drefni mwy o faint fwy o heriau na threfni llai, a bod Llandeilo yn cael ei gweld fel enghraifft o arfer da (er ei bod yn ymddangos fod yna le i wella yn fwy diweddar). Wrth ddewis y tri lleoliad, dylid ystyried y rheiny sydd â'r mwyaf o heriau a'r angen am gymorth, ond felly hefyd y rheiny sy'n cynnig y posibilrwydd o greu'r effaith a'r newid mwyaf.

### **Dysgu o Arferion Da**

Roedd yna lawer o gefnogaeth i drefnu ymweliadau arfer da a gwahodd cynrychiolwyr o ddigwyddiadau sy'n esiamplau da i gyfarfodydd yn y dyfodol.

Rhestrwyd ystod o ddigwyddiadau gan y rheiny oedd yn bresennol fel rhai y gellid dysgu arferion da oddi wrthynt, ac ar y brig yr oedd Gŵyl y Gelli. Nid yw hyn yn syndod, oherwydd dyma enghraifft ddisglair o ddigwyddiad bach dan arweiniad y gymuned, sydd wedi tyfu dros y blynyddoedd i fod yn ddigwyddiad mawr ag enw rhyngwladol. Mae'r digwyddiadau eraill a restrwyd sydd â lefelau tebyg o botensial am ddysgu yn cynnwys: Gŵyl Green Man, IronMan Cymru, Gŵyl Fwyd Arberth, The Big Cwtch, Green Events (Llanwrtyd) a Celtic Connections, Glasgow.

### **Rhwydweithio, Rhannu, Cydweithio**

Yn olaf, mae'r trafodaethau a'r sylwadau yn dangos ei bod yn amlwg bod angen y Prosiect hwn - ac yn gyntaf ac yn flaenaf oherwydd ei allu i ddod â phobl ynghyd; gan greu rhwydwaith ar gyfer cyfathrebu a rhannu gwybodaeth ymhlith ein gilydd. Mae 'Rhwydwaith', 'Rhannu' a 'Chydweithio' yn eiriau a gaiff eu hailadrodd drwyddo draw ac mae'n bwysig felly sicrhau mai byrdwn y Prosiect yw darparu cyfleoedd i drefnwyr digwyddiadau'r Sir wneud hyn.

---